Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru 2010

clyweliadau

dyddiad cau ceisiadau: 30.09.09

Ar gael i'w llwytho i lawr:
www.nyaw.co.uk neu ffoniwch 029 2026 5197

CBAC WJEC · TŶ CERDD Music Centre Wales · Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government · MUSICIANS BENEVOLENT FUND · Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales · CCIC

Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Orchestra of Wales

GWYBODAETH

Arweinydd - Owain Arwel Hughes OBE
Yr hyn sy'n gwneud Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru mor arbennig yw'r ffaith mai hon yw cerddorfa ieuenctid genedlaethol gyntaf y byd. Mae'n cyfuno disgwyliadau traddodiadol ag agwedd gyfoes, yn datblygu profiad hyfforddi o'r radd flaenaf yn berfformiadau llawn egni ac angerdd. Nid oes arni ofn ychwaith herio cynulleidfaoedd gyda repertoire sy'n herfeiddiol a mentrus. Mae'r gerddorfa ar flaen y gad ym myd cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru.

Mae rhwng 110 – 115 o bobl ifanc rhwng 13 - 21 mlwydd oed yn aelodau o CGIC a byddant yn cael eu clyweld yn flynyddol ac yn dod o Gymru gyfan.

Mae'r Gerddorfa wedi cyflwyno cyngherddau mewn lleoliadau o fri, gartref a thramor, gan gynnwys Neuadd Dewi Sant (Caerdydd), Neuadd Bridgewater (Manceinion), NCH (Dulyn), Neuadd Waterfront (Belffast), Konzerthaus am Gendarmenmarkt (Berlin), Beethovensaal (Stuttgart) a'r Salle Erasmus (Strasbourg). Yn 2009, bydd y Gerddorfa yn perfformio am y tro cyntaf yn The Sage, Gateshead. Yn 2010, bydd CGIC yn mynd ar daith gyngherddau o Gymru a'r DU cyn dechrau ar daith arfaethedig o Ewrop. Bydd CGIC hefyd yn agor Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ym mis Medi, 2010.

CGIC 2010 Cwrs a Chyngherddau
Lleoliad: Prifysgol Llanbedr Pont Steffan
Dyddiadau: 31 Gorffennaf - 16 Awst 2010 *(i'w gadarnhau)*
17 - 18 Medi 2010 (i'w gadarnhau)
(perfformiad yng Ngŵyl Gogledd Cymru)

Cost y cwrs a Thaith y DU £170 *(i'w gadarnhau)*
Taith Ewropeaidd £400 *(i'w gadarnhau)*

Gellir cytuno â swyddfa CGIC i dalu mewn rhandaliadau. Fodd bynnag, rhaid talu'r cyfanswm erbyn 30 Mehefin 2010.

Cydweithrediad CGIC a CGG y BBC.
Ers 2001 mae Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC wedi gweithio gyda'i gilydd ar brojectau gyda chyngherddau neu recordiadau ar y cyd yn uchafbwynt iddynt. Mae hyn wedi rhoi cyfle i'n chwaraewyr ifanc chwarae ochr yn ochr â rhai o chwaraewyr cerddorfaol gorau Prydain. Yn 2010 bydd dau gyngerdd gan gynnwys un yng Ngŵyl Abertawe.

Dyddiadau: 20 - 23 Hydref 2010
Cost: £60 *(i'w gadarnhau)*

Mae Cymorth Ariannol ar gael.
Rydym yn awyddus iawn i sicrhau na fydd rhesymau ariannol yn atal unrhyw un rhag cyflwyno cais am CGIC. Ymdrinnir yn gwbl gyfrinachol ag unrhyw geisiadau am gymorth ariannol.

Gofynion Clyweliad
Derbynnir ymgeiswyr i'w clyweld ar gymeradwyaeth Pennaeth Gwasanaeth Cerdd eu sir (neu ei g/chynrychiolydd neu gywerth) a disgwylir iddynt gefnogi gweithgaredd cerddorol yn yr ysgol/coleg ac ar lefel sirol. Os nad oes gweithgaredd sirol, gall y Pennaeth Adran yn yr ysgol neu goleg gefnogi ceisiadau i ddechrau.

Dylai ymgeiswyr fel arfer fod o safon gradd VIII neu fod yn gweithio tuag at hynny ar ôl llwyddo yng ngradd VII; dylai myfyrwyr y delyn fod o safon gradd VI o leiaf.

Dylai ymgeiswyr ar gyfer CGIC 2010 fod yn 21 mlwydd oed neu iau ar 31ain Awst 2010.

Clyweliadau
Yn ystod y clyweliad, gofynnir i chi chwarae dau ddarn ***cyferbyniol*** o'ch dewis eich hun (yn ddigyfeiliant), detholiad o raddfeydd ac arpeggi, darllen ar yr olwg gyntaf a dyfyniadau cerddorfaol (y byddant yn cael eu hanfon atoch cyn eich clyweliad). Gofynnir i ymgeiswyr sydd hefyd yn canu ail offeryn (e.e. picolo/côr anglais) baratoi darn byr yn ogystal â'r rheiny ar gyfer eich prif offeryn a gofynnir i chi chwarae darn byr o ddarllen ar yr olwg gyntaf.

Am fanylion llawn o'r drefn glyweld ynghyd ag awgrymiadau ar sut i baratoi, ewch i'r wefan (www.nyaw.co.uk) a dilynwch y cysylltau.

Cynhelir clyweliadau yn ystod yr hydref o gwmpas Cymru ac mewn rhai canolfannau yn Lloegr i'r rhai ohonoch sy'n astudio oddi cartref.

Dylech nodi ar y ffurflen gais trosodd pa ganolfan yr hoffech ei mynychu. Byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion eich clyweliad ym mis Hydref.

Dyddiadau a lleoliadau dros dro:

CLYWELIADAU CORN FFRENGIG : 18fed Hydref 2009

POB CLYWELIAD OFFERYNNOL ARALL:

CAERDYDD: 14 - 16eg Tachwedd 2009

CAERFYRDDIN: 21 - 23ain Tachwedd 2009

MANCEINION A GOGLEDD CYMRU: 28 - 30ain Tachwedd 2009

CLYWELIADAU OFFERYNNAU TARO:

GOGLEDD CYMRU: 13eg Tachwedd 2009

CAERDYDD: 14eg Tachwedd 2009

**** Gweler y ffurflen gais ar wahân am glyweliadau offerynnau taro.***

Seilir y dyddiadau/lleoliadau hyn ar wasgariad daearyddol nodweddiadol ymgeiswyr a gellir eu newid os bydd llai na 12 ymgeisydd i bob lleoliad. Yn yr un modd gellir ychwanegu dyddiad/lleoliad arall os bydd digon o alw am hynny.

Cost
Mae'r clyweliadau'n rhad ac am ddim. Fodd bynnag, mae gofyn i chi anfon siec (yn daladwy i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru) am £15 fel blaendal. Dychwelir y siec hon i chi os byddwch yn mynychu'r clyweliad ar yr amser a gytunwyd. Bydd y tâl hwn yn cael ei fforffedu os nad ydych yn dod i'ch clyweliad.

Gwybodaeth bellach
Am wybodaeth bellach am CGIC neu unrhyw un arall o ensembles cerdd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, cysylltwch â'r swyddfa ar 029 2026 5197 neu anfonwch e-bost at nyow@nyaw.co.uk

Sut i Ymgeisio
Llenwch y ffurflen gais sydd ynghlwm (ar gael i'w llwytho i lawr hefyd yn www.nyaw.co.uk) a'i hanfon gyda'ch blaendal i'r cyfeiriad isod erbyn **30ain Medi 2009.**

Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru,
CBAC,
245 Rhodfa'r Gorllewin,
Caerdydd,
CF5 2YX

Llun ar y clawr blaen: Benjamin Evans - Sielo
(Christopher Stock)

Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Orchestra of Wales

Cais i ymuno â CGIC 2010

Y cyfan i'w gwblhau mewn print priflythrennau

Bydd yr holl wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais hon yn cael ei chadw ar Gronfa Ddata Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. O dro i dro efallai y byddwn am drosglwyddo eich manylion cysylltu i fudiadau celfyddydol eraill sydd wedi'u sgrinio'n ofalus.

Os **nad** ydych am i ni wneud hyn, ticiwch y blwch hwn: ☐

Offeryn(nau): _____ Gradd: _____ Dyddiad llwyddo: _____
(yr ydych yn dymuno cael eich clyweld yn ei chwarae)

Cyfenw: _____ Enw(au) cyntaf: _____

Dyddiad geni: _____ Oedran ar 31.08.10 (blynyddoedd/misoedd): _____

Cyfeiriad cartref: _____

Tref/Dinas: _____ Cod post: _____ Rhif ffôn cartref: _____

Rhif ffôn symudol: _____ Cyfeiriad e-bost: _____

Awdurdod Lleol: _____ Ysgol/Coleg/Prifysgol: _____

Cyfeiriad yn ystod y tymor (os yn wahanol i'r uchod): _____

_____

Gwasanaeth Cerdd y Sir: _____

Gyda pha grwpiau offerynnol rydych chi wedi/ydych chi'n perfformio?

Ysgol: _____

Sir: _____

Cenedlaethol: _____

Arall: _____

Profiad offerynnol arall: _____

_____

_____

Eich tiwtor offerynnol: _____

Offeryn(nau) ychwanegol: _____

Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Orchestra of Wales

Sut wnaethoch chi glywed am Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru?

Tiwtor offerynnol ☐ Athro cerdd yn yr ysgol ☐

Gwasanaeth cerdd y sir ☐ Gwefan CCIC ☐

Arall (nodwch) _____

Canolfan Glyweld fyddai orau gennych
Ticiwch y blwch gyferbyn â'r ganolfan o'ch dewis:

Caerdydd ☐ Caerfyrddin ☐ Manceinion ☐ Gogledd Cymru ☐

Amgaeir siec am £15 (yn daladwy i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru) fel blaendal.
Deallaf y byddaf yn fforffedu'r arian hwn os na fyddaf yn mynychu'r clyweliad ar yr amser a gytunwyd.

Llofnod yr ymgeisydd _____ Dyddiad: __/__/____

Rhaid i'r ceisiadau gael eu cefnogi gan Bennaeth Cerdd yr ysgol a hefyd y Pennaeth Gwasanaeth Cerdd.
Noder na ellir ystyried ceisiadau sydd heb eu cadarnhau (gweler 'Gofynion' ar dudalen 2)

Enw'r Pennaeth Cerdd (Ysgol neu Coleg) _____

Llofnod _____ Dyddiad: __/__/____

Cymeradwyir y cais gan Bennaeth Gwasanaeth y Sir/Cynrychiolydd Awdurdodedig

Enw _____

Llofnod _____ Dyddiad: __/__/____

Dychweler y ffurflen gais wedi'i llenwi ynghyd â siec am £15.00 (yn daladwy i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru) i'r cyfeiriad isod erbyn **30ain Medi 2009.**

Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru,
245 Rhodfa'r Gorllewin,
Caerdydd,
CF5 2YX

ffôn: 029 2026 5197 **ffacs: 029 2026 5014** **e-bost: nyow@nyaw.co.uk**